

Crynodeb o'r Ymatebion gan gynnwys Ymatebion Llywodraeth Cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ffermio Cynaliadwy a'n Tir: Cynigion i barhau a symleiddio Cymorth Amaethyddol ar gyfer Ffermwyr a'r Economi Wledig

Tachwedd 2020

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol.....	2
Cynllun y Taliad Sylfaenol	2
Datblygu Gwledig.....	2
Pwyntiau ychwanegol	3
1 Cyflwyniad.....	4
2 Cynigion Cynllun y Taliad Sylfaenol.....	5
2.1 Cyfraddau talu a dyraniad blynyddol BPS	5
2.2 Rheol cais sengl trawsffiniol (trwy'r DU).....	5
2.3 Taliad Gwyrdd	6
2.4 Cynllun Ffermwyr Ifanc	7
2.5 Rheolau'n ymwneud â dogfennau ategol hwyr ar gyfer BPS.....	8
2.6 Y Gronfa Genedlaethol.....	8
2.7 Cyfraddau arolygu.....	9
2.8 Datgan gormod o dir	10
2.9 Cyfnod Talu BPS ar gyfer hawliadau nad ydynt wedi'u dilysu	10
2.10 Gofyniad Ffermwr Actif.....	11
2.11 Cywarch.....	12
3 Cynigion Datblygu Gwledig	13
3.1 Egwyddorion, cenhadaeth, amcanion a blaenoriaethau	13
3.2 Mesurau	13
3.3 Trefniadau Llywodraethu a Gweinyddu.....	14
3.4 Rhwydweithio Ewropeaidd	14
3.5 Monitro a gwerthuso ac adrodd	15
4. Y Gymraeg.....	16
Atodiad 1: Rhestr o'r Ymatebwyr	17
Atodiad 2: Crynodeb o'r ymatebion	19

Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion i 'Ffermio Cynaliadwy a'n Tir: Cynigion i barhau a symleiddio Cymorth Amaethyddol ar gyfer Ffermwyr a'r Economi Wledig'. Mae'n nodi barn a safbwyntiau'r ymatebwyr ac ymatebion Llywodraeth Cymru.

Cafwyd 99 o ymatebion dros gyfnod yr ymgynghoriad. Roedd 52 o'r ymatebwyr yn gyrrff a sefydliadau a gan unigolion y cafwyd 47 o'r ymatebion.

Cynllun y Taliad Sylfaenol

O'r un ar ddeg o gynigion ar y BPS yr holwyd amdanynt, cafwyd cytundeb bras ar wyth ohonynt ac amrywiaeth eang o safbwyntiau gwahanol am dri (o ran nifer yr ymatebion gwrthwynebus neu o ran y sylwebaeth gysylltiedig):

- Cynllun Ffermwyr Ifanc (Cwestiwn 7)
- Y Gronfa Genedlaethol (Cwestiwn 11)
- Cywarch (Cwestiwn 17)

Fe welwch fanylion y cynigion ar gyfer y BPS ac ymatebion Llywodraeth Cymru iddynt yn adran 2 y ddogfen hon. Dyna'n debygol fydd ein sail ar gyfer diwygio deddfwriaeth yr UE a gedwir cyn diwedd y flwyddyn galendr.

Datblygu Gwledig

Roedd yr ymatebwyr yn cytuno'n fras â'r pum cynnig Datblygu Gwledig yr ymgynghorwyd arnynt.

Cafwyd cymysgedd o ymatebion i'r cynigion canlynol, er bod mwyafrif yr ymatebion o blaid:

- disodli cenhadaeth, amcanion a blaenoriaethau'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer cymorth datblygu gwledig â diffiniadau penodol i Gymru ar gyfer datblygu gwledig (cwestiwn 18).
- Trefniadau gweinyddol - dileu rheoliadau manwl sy'n nodi'r gofynion ar gyfer cynnwys a diwygio rhaglen datblygu gwledig yn y dyfodol? (cwestiwn 21) a chytuno â chryfhau swyddogaeth yr Awdurdod Rheoli wrth weinyddu'r RhDG (cwestiwn 22).

Fe welwch fanylion y cynigion Datblygu Gwledig ac ymatebion Llywodraeth Cymru iddynt yn adran 3 y ddogfen hon. Dyna'n debygol fydd ein sail wrth ddiwygio deddfwriaeth yr UE a gedwir yn gynnar flwyddyn nesaf.

Pwyntiau ychwanegol

Rhoddodd yr ymgynghoriad gyfle hefyd i'r ymatebwyr dynnu ein sylw at faterion cysylltiedig nad oedd y ddogfen ymgynghori wedi mynd i'r afael yn benodol â nhw.

Cawsom nifer o ymatebion gan unigolion a sefydliadau'n cynnig syniadau ychwanegol at y cynigion yn yr ymgynghoriad. Byddwn yn eu rhannu â'r timau polisi perthnasol a'u defnyddio i ddatblygu polisïau yn y dyfodol ar ddarparu cymorth i ffermwyr yng Nghymru.

1 Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad 'Ffermio Cynaliadwy a'n Tir: Cynigion i barhau a symleiddio Cymorth Amaethyddol ar gyfer Ffermwyr a'r Economi Wledig'. Mae'n nodi barn a safbwyntiau'r ymatebwyr am y cynigion, a hefyd ymatebion Llywodraeth Cymru.

1.1 Cefndir

Ar 31 Ionawr 2020, ymadawodd y Deyrnas Unedig (y DU) â'r Undeb Ewropeaidd (UE) gan gychwyn y Cyfnod Gweithredu o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020. Disgwylir i'r Cyfnod Gweithredu ddod i ben ar 31 Rhagfyr 2020.

Er mwyn parhau i gefnogi ffermwyr Cymru a'r economi wledig ehangach nes y bydd cynlluniau cymorth amaethyddol newydd ar gael, yn seiliedig ar egwyddorion Rheoli Tir yn Gynaliadwy, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu parhau â fframwaith rheoleiddio presennol y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC), gan ei symleiddio a'i gyfuno â'n fframwaith deddfwriaethol unigryw ni, sef yn benodol Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Bydd Bil Amaethyddiaeth y DU yn rhoi'r pwerau i Weinidogion Cymru wneud newidiadau i deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir.

Mae Atodlen 5 i'r Bil yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru ddiwygio ac ehangu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir er mwyn symleiddio'r broses o weinyddu'r cynllun neu sicrhau bod modd ei weithredu'n fwy effeithlon neu effeithiol; dileu darpariaethau sydd wedi'u disbyddu neu nad oes ganddynt unrhyw ddefnydd ymarferol; dileu neu leihau beichiau ar unigolion sy'n gwneud cais am daliadau uniongyrchol; sicrhau bod y sancsiynau sy'n cael eu cyflwyno'n briodol ac yn gymesur, a chyflwyno'r cynllun yng Nghymru yn unig.

Hefyd, mae Atodlen 5 yn cynnwys pwerau eang i Weinidogion Cymru addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud â chymorth ar gyfer datblygu gwledig.

Mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn nodi nifer o newidiadau bach ond mawr eu heffaith i ofynion y cynllun a'r rhaglen. Byddan nhw'n cadw prif elfennau'r fframwaith rheoleiddio presennol, ac yn rhoi ar waith bolisi Llywodraeth Cymru ynghylch cynnal safonau uchel o ran diogelwch bwyd, llesiant anifeiliaid a safonau amgylcheddol.

Bydd y newidiadau arfaethedig yn effeithio ar Gynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) a'r RhDG domestig newydd yn unig, cyn belled â bod arian cyfatebol ar gael gan Lywodraeth y DU.

1.2 Ymatebion

Ceir rhestr lawn o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn Atodiad 1.

2 Cynigion Cynllun y Taliad Sylfaenol

2.1 Cyfraddau talu a dyraniad blynyddol BPS

C1. A ydych yn cytuno â'r cynnig i Weinidogion Cymru bennu terfyn uchaf y BPS, mewn perthynas â Chymru?

C2. A ydych yn cytuno â'r cynnig i ganiatáu hyblygrwydd i Weinidogion Cymru reoli unrhyw arian sydd heb ei wario a ddyrannwyd i BPS?

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion hyn. Roedd y rheini oedd yn gwrthwynebu yn awyddus i'r gyllideb barhau i ganolbwyntio ar gymorth i amaethyddiaeth ac roedd y farn yn gymysg ynghylch a ddylid defnyddio'r arian oedd heb ei wario i chwyddo'r BPS neu i dalu am weithgareddau datblygu gwledig.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Gweinidogion Cymru'n gwyr o blaid pennu terfyn ar gyfanswm taliadau uniongyrchol blynyddol Cymru cyn dechrau pob blwyddyn. Caiff y terfyn ei gyhoeddi cyn gynted ag sy'n ymarferol.

Bydd y terfyn hwn yn ystyried yr hawliau BPS yr hawliwyd taliad arnynt, y Gronfa Genedlaethol, y Taliad Ailddosbarthu, y Cynllun Ffermwyr Ifanc ac unrhyw Gynllun Cymorth Cysylltiedig Gwirfoddol (Pwysig: nid oes bwriad cyflwyno cynllun cysylltiedig yng Nghymru).

Mae Gweinidogion Cymru yn gwyr o blaid defnyddio dull newydd o gyfrif gwerth hawliau BPS a fydd yn ystyried y terfyn a nifer yr hawliau yr hawlir taliad arnynt bob blwyddyn. Bydd hynny, gyda'r rheolau symlach ar gyfer rhoi cosbau gweinyddol, yn sicrhau bod y gyllideb gyfan fydd wedi'i neilltuo ar gyfer BPS yn gallu cael ei gwario.

2.2 Rheol cais sengl trawsffiniol (trwy'r DU)

C3. A ydych yn cytuno â'r cynnig i ddileu ceisiadau trawsffiniol ac ystyried tir Cymru yn unig ar gyfer hawliadau BPS yng Nghymru, gan ddileu'r angen i aros am wiriadau gan asiantaethau talu eraill?

C4. A ydych yn cytuno â'r cynnig y dylai maint lleiaf yr hawliad aros yn ddigynnewid a pheidio â gwneud unrhyw ddarpariaeth i ffermwyr sy'n dibynnu ar dir mewn rhannau eraill o'r DU ar hyn o bryd i gydymffurfio ag arwynebedd maint lleiaf yr hawliad, sef 5 hectar cymwys?

Roedd mwyafrif clir o blaid gollwng yr hawliadau trawsffiniol sengl presennol ar lefel y DU. Dywedodd rhai ymatebwyr fod y cynigion yn gyson â chynlluniau gweinyddiaethau eraill. Nododd ymatebwyr eraill bod angen y newid er mwyn i wledydd allu bwrw ymlaen â'u cynlluniau cymorth amaethyddol newydd gan ddilyn amserlenni gwahanol.

Roedd llai o gefnogaeth ar gyfer ystyried tir yng Nghymru yn unig wrth asesu'r rheol hawliad lleiaf o 5 hectar. Roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn y byddai'n anghymesur eithrio dyrnaid (dengys y cofnodion bod 21 o hawliadau yn y categori hwn yn 2020) o

hawliau trawsffiniol gan awgrymu y dylid ceisio meddwl am ffordd i'r hawliadau hyn barhau'n gymwys am daliadau BPS yng Nghymru.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Gweinidogion Cymru'n gwyro o blaid dileu ceisiadau trawsffiniol o'r cynllun BPS yng Nghymru.

Fodd bynnag, caiff darpariaeth ei gwneud i sicrhau bod ffermwyr sydd â thir yn rhannau eraill y DU yn cael parhau i ddibynnu ar dir sydd wedi'i ddatgan mewn gweinyddiaeth arall ar gyfer blwyddyn hawlio 2020 fel tir cymwys ar gyfer cyfrif 5 hectar yr hawliad lleiaf am BPS o flwyddyn hawlio 2021 ymlaen.

2.3 Taliad Gwyrdd

C5. A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gadw manteision amgylcheddol arferion y Taliad Gwyrdd drwy Drawsgydymffurfio?

C6. A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddileu'r rheol Tyfu Amrywiaeth o Gnydau o ofynion y Taliad Gwyrdd?

Roedd mwyafrif clir o blaid y cynigion hyn.

Dywedodd y rheini oedd o blaid dileu'r gofyn am dyfu amrywiaeth o gnydau fod ffermio ungnwd yn llai tebygol yng Nghymru o'i gymharu ag ardaloedd eraill gan awgrymu bod y baich gweinyddol yn drech nag unrhyw fanteision posibl. Roedd y rheini oedd yn gwrthwynebu yn poeni ynghylch effeithiau posibl dileu'r gofyn hwn ar systemau ecolegol gan awgrymu y gallai amrywiaeth o gnydau gyfrannu at ddiogelu cyflenwadau bwyd.

Cafwyd cais bod y penderfyniad hwn yn cael ei gyhoeddi'n gynnar, fel bod ffermwyr â'r yng Nghymru'n cael cyfle i adolygu eu cynlluniau cnydio ar gyfer 2021.

Roedd mwyafrif mawr o blaid y cynnig i gadw manteision amgylcheddol Gwyrddu trwy Drawsgydymffurfio. Roedd rhai sylwadau'n cynnwys awgrym y dylai safonau trawsgydymffurfio adlewyrchu rhai'r UE rhag gwanhau'r safonau amgylcheddol a lles ac yn tynnu sylw at yr angen i leihau biwrocratiaeth.

Ystyriwyd bod Ardaloedd â Ffocws Ecolegol sy'n cael eu datgan fel mater o drefn gan ffermwyr yng Nghymru wedi'u diogelu'n ddigonol o dan amod Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (GAEC7) y system trawsgydymffurfio. Byddai diogelu Glaswelltir Parhaol Amgylcheddol Sensitif o dan Drawsgydymffurfio yn lleihau'r baich gweinyddol ar ffermwyr.

Roedd mwyafrif y sylwadau'n cytuno nad oedd arferion gwyrddu wedi sicrhau'r manteision amgylcheddol i'r graddau a obeithiwyd yn wreiddiol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Gwella arferion a safonau amgylcheddol yw un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru a bydd yn rhan sylfaenol o Fil Amaethyddiaeth (Cymru) yn nhymor nesa'r Senedd.

Wedi adolygu'r ymatebion a'r adborth, mae Gweinidogion Cymru'n gwro o blaid bwrw ymlaen â'r cynigion sydd yn yr ymgynghoriad.

Caiff y gofyn i dyfu amrywiaeth o gnydau ei dynnu o'r Taliad Gwyrddu. Bydd yr Ardaloedd â Ffocws Ecolegol sy'n cael eu datgan amlaf (perthi/gwrychoedd a waliau sych) yn cael eu diogelu o hyd trwy amodau tirwedd trawsgydymffurfio; ni fyddwn yn newid y rheini. Caiff amod ei ychwanegu at GAEC7 i ddiogelu Glaswelltir Parhaol Amgylcheddol Sensitif i sicrhau na chaniateir ei aredig na'i drosi heb ganiatâd Cyfoeth Naturiol Cymru.

Daw'r taliad Gwyrddu ar wahân i ben, ac ni chaiff y Gyllideb Wyrddu o 30% ei thynnu mwyach o gyfanswm y terfyn. Mae hyn yn golygu y bydd y Gyllideb Wyrddu ar gael i ffermwyr yng Nghymru trwy derfyn y BPS. Bydd hyn yn cynyddu gwerth yr holl hawliau BPS ac yn sicrhau na fydd y taliadau uniongyrchol y mae gan ffermwyr yng Nghymru yr hawl iddynt, cyn newid y drefn Wyrdd, yn gostwng.

2.4 Cynllun Ffermwyr Ifanc

C7. A ydych yn credu y dylem gau'r cynllun hwn i ymgeiswyr newydd o 2021?

C8. Ac eithrio'r opsiwn i gau'r Cynllun Ffermwyr Ifanc i geisiadau newydd o 2021, a oes opsiynau eraill y gellid eu hystyried?

O'r ymatebion a ddaeth i law, roedd mwyafrif clir o'r ymatebion yn anghytuno â'r cynnig hwn (44 o ymatebwyr), roedd 30 o ymatebwyr o'i blaid ac ni chafwyd ateb clir gan 10 ymatebydd.

Gwnaeth yr ymatebwyr oedd yn anghytuno â'r cynnig dynnu sylw at bwysigrwydd denu ffermwyr newydd i'r sector ac at y rhwystrau sy'n wynebu pobl ifanc sydd am ymuno â'r sector. Soniwyd am y gost uchel i'r rheini nad oeddent eisoes yn aelod o deulu sy'n ffermio, y bwlch rhwng pris tir a'r elw blynyddol tebygol o gynnal gweithgareddau ffermio a'r ofn y byddai ei gau heb roi unrhyw beth yn ei le yn golygu na fyddai'r un cynllun ar gael trwy'r cyfnod hwn o newid.

Cafwyd nifer o syniadau ar gyfer aiddylunio'r cynllun a syniadau ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Er bod mwyafrif clir yn anghytuno, nodir bod llawer o ymatebwyr yn cytuno mai ychydig o fudd y mae'r cynllun yn ei roi.

O gofio nerth yr ymatebion i'r ymgynghoriad a phwysigrwydd parhau i gefnogi ffermwyr ifanc, mae Llywodraeth Cymru'n gwro o blaid peidio â newid Cynllun Ffermwyr Ifanc BPS a bydd yn dal i dderbyn ceisiadau ar ôl 2021.

Caiff y cynllun ei gynnwys mewn unrhyw adolygiad a gynhelir wrth newid o'r BPS i'r cynlluniau cymorth newydd fydd yn cael eu dylunio i reoli tir yn gynaliadwy.

Bydd y syniadau a gafwyd i wella a/neu aiddylunio'r gefnogaeth i ffermwyr ifanc yn cael eu hystyried gan y timau polisi perthnasol.

2.5 Rheolau'n ymwneud â dogfennau ategol hwyr ar gyfer BPS

C9. A ydych yn cytuno â'r cynnig i ymestyn dyddiad cyflwyno dogfennau ategol y BPS i 31 Rhagfyr?

C10. A ydych yn cytuno â'r cynnig i beidio â newid y dyddiad terfynol ar gyfer ceisiadau a'r gosb am gais hwyr?

Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion hyn.

Roedd y rheini oedd yn wrthwynebus i ymestyn y dyddiad cyflwyno dogfennau ategol hwyr yn poeni am y posibilrwydd o ddryswch gan y bydd dyddiadau gwahanol ar gyfer cyflwyno'r Ffurflen Cais Sengl (SAF) a pherygl y gallai ymgeiswyr anghofio cyflwyno'u dogfennau ategol o gwbl. Ymhlith y syniadau a gafwyd i ddatrys y mater oedd cynnwys system rybuddio 14 diwrnod newydd i roi cyfle i hawlwyr gyflwyno'r dogfennau ac unioni'r sefyllfa os oedd angen. Mae sylwadau eraill yn dangos pwysigrwydd rhoi gwybod i bob ymgeisydd am y newid hwn yn y drefn.

Roedd y mwyafrif llethol o blaid y cynnig i gadw pob dyddiad terfyn a chosb arall heb eu newid, er bod lleiafrif yn gwrthwynebu, ac yn awgrymu y dylid cael gwared yn llwyr ar y gosb am gyflwyno'n hwyr.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Yn dilyn adolygiad o'r ymatebion, mae Gweinidogion Cymru'n gwyr o blaid bwrw ymlaen â'r cynigion hyn fel yr oeddynt yn yr ymgynghoriad.

Caiff y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno dogfennau ategol hwyr ei estyn i 31 Rhagfyr y flwyddyn hawlio. Ni newidir y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r SAF a hawliadau hwyr.

Bydd ymgeiswyr yn cael eu hatgoffa trwy RPW Ar-lein pan fydd angen cyflwyno dogfennau, gan gynnwys pan fydd diffyg dogfen ategol yn golygu na ellir gwneud taliad.

2.6 Y Gronfa Genedlaethol

C11. A ydych chi'n cytuno y dylid ehangu categorïau'r Gronfa Genedlaethol i gynnwys tir ychwanegol a gaffaelwyd?

C12. A oes unrhyw gategoriâu neu gynigion eraill y dylid eu hystyried ar gyfer y Gronfa Genedlaethol yn eich barn chi?

Roedd cefnogaeth i'r cynnig i gyflwyno categori yn y Gronfa Genedlaethol ar gyfer ffermwyr a rheolwyr tir oedd wedi prynu tir neu lofnodi lês tymor hir o 5 mlynedd neu fwy ers 2015 (52 o blaid ac 14 yn erbyn). Ond roedd amod i lawer o'r ymatebion neu roedd y farn o fewn sefydliadau'n gytbwys.

Mynegodd nifer eu pryderon am yr effaith bosibl ar werth tir amaethyddol ar y farchnad ac ar y fasnach mewn hawliau BPS. Awgrymodd ymatebwyr eraill y dylid ymdrin â'r mater yn ôlweithredol, a dywedodd rhai y dylid cynnwys hefyd tir gaiff ei brynu neu ei brydlesu ar ôl 2021.

Dyweddod ymatebwyr eraill y dylid capio nifer yr hawliau yn y categori newydd neu y dylai'r categori roi blaenoriaeth i ffermwyr ifanc a ffermwyr newydd. Awgrymwyd hefyd bod angen gofal rhag i'r cynnig arwain at ostwng nifer y daliadau llai trwy annog ehangu ffermydd mawr.

Cafwyd nifer o awgrymiadau eraill gan gynnwys categorïau ychwanegol a cheisiadau i adolygu'r cyfnod pan fydd hawliau'n gallu cael eu masnachu.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Er bod mwyafrif yr ymatebwyr o blaid cyflwyno categori tir wedi'i gaffael, mae'r ymatebion yn dangos hefyd nad oes consensws ynghylch sut y dylid gweithredu'r categori.

Gan fod cymaint o amrywiaeth o sylwadau wedi dod i law, mae Gweinidogion Cymru'n gwyro o blaid peidio ag ychwanegu categori newydd at y Gronfa Genedlaethol ar gyfer 2021. Parheir i roi blaenoriaeth i geisiadau oddi wrth 'Newydd-ddyfodiaid' a 'Ffermwyr Ifanc'.

Caiff y cyfnod masnachu hawliau BPS ei estyn o 30 Ebrill a'i gadw ar agor am y flwyddyn gyfan. Caiff ffurflenni trosglwyddo a phrydlesu a ddaw i law erbyn canol nos 15 Mai bob blwyddyn eu prosesu a chyn belled â'u bod yn cael eu cymeradwyo, bydd derbynwyr yn cael defnyddio'r hawliau BPS hynny yn yr un flwyddyn.

Cedwir y rheol defnyddio 2 flynedd, sy'n golygu bod yn rhaid i'r hawliau gael eu defnyddio o leiaf unwaith mewn cyfnod o ddwy flynedd. Bydd hynny'n fodd i ailgyflenwi'r Gronfa Genedlaethol.

2.7 Cyfraddau arolygu

C13. A ydych yn cytuno â'r bwriad hwn i leihau cyfraddau arolygu'r BPS?

Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr o blaid y cynnig hwn.

Roedd y sylwadau a gafwyd yn gofyn am addewidion na fyddai'n cael effaith negyddol ar les a'r amgylchedd ac na fydd yr archwiliadau'n llai effeithiol. Cafwyd awgrym gan rai y dylid adolygu'r matyrics cosbau er mwyn sicrhau cosbau cymharus.

Clywyd anogaeth hefyd i ddefnyddio mwy ar dechnolegau newydd gan gynnwys synhwyro o bell fel cam positif cyn belled ag y gellid sicrhau'r lefelau priodol o gywirdeb.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Gweinidogion Cymru'n gwyro o blaid defnyddio sampl o 3% fyddai'n cynnwys cyfuniad o hawlwr BPS, cynllun Ffermwyr Ifanc a'r cynllun Taliad Aildosbarthu. Parheir i gadw golwg ar y gyfradd gamgymeriadau a bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu bob blwyddyn a ddylid cynyddu, gostwng neu gadw'r gyfradd archwilio ar ôl ystyried y lefel cydymffurfio.

Bydd archwiliadau o dan Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 (cynlluniau'r tir) hefyd yn cyfrannu at gyfraddau rheoli cyffredinol BPS, lle bo gofyn.

2.8 Datgan gormod o dir

C14. A ydych yn cytuno â'r cynnig i ddileu cyfyngiad y "Cerdyn Melyn?"

Roedd y mwyafrif llethol o blaid y cynnig hwn.

Roedd rhai ymatebwyr yn poeni y byddai lleihau lefelau'r cosbau yn arwain iddynt gollu'u heffaith i rwystro pobl rhag torri'r rheol gan fod y gosb ar hyn o bryd yn adlewyrchu difrifoldeb y drosedd yn gywir. Roedd ymatebwyr eraill yn poeni y byddai peidio â haneru'r gosb (os bydd y gwahaniaeth yn llai na 10%) yn gam anghymarus ac roedd rhai'n gofyn inni ailystyried cadw 2ha neu 3% fel y trothwy isaf ar gyfer cosbi o gofio y gallai hynny fod yn anfantais i ffermydd mwy.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Gweinidogion Cymru'n gwyr o blaid bwrw ymlaen â'r cynigion sydd yn yr ymgynghoriad.

Caiff cyfradd safonol o 1.5% o ostyngiad ei ddefnyddio pan welir bod mwy na 2 hectar neu 3% o'r tir wedi'i orddatgan, bob blwyddyn, o 2021. Bydd y gosb yn dal i gael ei gostwng 50%, os bydd y gwahaniaeth yn llai na 10% o'r arwynebedd a bennwyd.

O ganlyniad, ni fydd 'cosb yn cael ei chario ymlaen' mwyach, hynny yw ni fydd y gosb yn lleihau hawliadau blynyddoedd dilynol (am hyd at 3 blynedd).

2.9 Cyfnod Talu BPS ar gyfer hawliadau nad ydynt wedi'u dilysu

C15. A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gyflwyno model rhagdaliad a thaliad olaf a dileu'r gofyniad am ddilysu hawliadau'n llawn cyn gwneud rhagdaliad cynnar?

Roedd mwyafrif y rheini a ymatebodd yn cytuno â'r cynigion hyn.

Roedd nifer o'r ymatebwyr yn poeni am dalu'r ail daliad i ffermwyr ym mis Chwefror, gan awgrymu y dylid cadw'r amseriad presennol a thalu'r taliad llawn o fis Rhagfyr. Roedd ymatebwyr yn poeni bod y ganran o 70% yn rhy isel ac y dylai gael ei gynyddu, yn enwedig yn yr achosion lle gallai ymholiadau arwain at ohirio talu'r 30% tan ar ôl mis Chwefror. Awgrymwyd hefyd y gallai'r newid ei gwneud yn ofynnol i ffermwyr aildrefnu'u busnes a/neu ad-dalu benthyciadau o gwmpas y model talu newydd.

Roedd y rheini oedd o blaid yn credu bod y cynnig yn helpu i gael gwared ar 'ddyddiadau cau ffug' ac y dylai datrys problemau ag arafwch delio â hawliadau oherwydd archwiliadau dilysu a gallai helpu llif arian ffermwyr.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Gweinidogion Cymru'n gwro o blaid cyflwyno rhagdaliad BPS awtomatig.

Caiff rhagdaliad o 70% ei dalu ym mis Hydref i bawb sy'n hawlio BPS. Caiff y gweddill ei dalu o fewn y cyfnod talu, ar ôl cynnal archwiliadau dilysu ac yn amodol ar yr amserlen weinyddol. Bydd y cyfnod talu yn aros fel y mae, 1 Rhagfyr tan 30 Mehefin.

Os caiff gormod ei dalu yn y rhagdaliad, caiff hynny ei gywiro yn yr ail daliad, neu caiff ei ad-dalu yn unol â'r drefn ar gyfer adennill dyledion (os oes angen).

Ni chaiff rhagdaliad ei dalu ar hawliadau anghymwys, gan gynnwys y rheini fydd heb eu dogfennau ategol.

2.10 Gofyniad Ffermwr Actif

C16. A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddileu'r gofyniad rhestr negyddol ar gyfer Ffermwyr Actif a chadw'r lefelau sylfaenol o 'Weithgarwch Amaethyddol'?

Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr o blaid dileu gofynion rhestr negyddol y prawf Ffermwr Actif a chadw'r lefel ofynnol o weithgarwch amaethyddol.

Dyweddodd un ymatebydd y byddai gwneud hynny'n gyson â'r awydd i chwalu'r ffiniau rhwng coedwigaeth, ffermio a rheoli tir ecolegol a chynnig cefnogaeth i bawb sydd am reoli tir am gyfuniad o nwyddau cyhoeddus. Mae'r cam hwn yn mynd ymhellach na gweinyddiaethau eraill y DU i sicrhau bod gweithgarwch amaethyddol yn cael ei gynnal.

Roedd cydnabyddiaeth nad yw'r amod aiddderbyn 21 hectar yn fawr o wrthanogaeth a chafwyd galwadau bod angen gwneud mwy i sicrhau mai dim ond ffermwyr go iawn sy'n cael manteisio ar y cynllun hwn a chynlluniau yn y dyfodol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Gweinidogion Cymru'n gwro o blaid diddymu "rhestr negyddol" y ffermwyr actif ond maent am gadw'r archwiliadau i sicrhau bod y lefel ofynnol o weithgarwch amaethyddol yn cael ei gynnal.

Mae hynny'n golygu na fydd angen i unrhyw hawlydd sy'n rhedeg maes awyr, rheilffordd, gwaith dŵr, gwasanaethau tir neu chwaraeon a thir hamdden ailgymhwyso.

Ni fydd y newidiadau'n effeithio ar hawliadau a gyflwynir o dan Gynllun Glastir Organig Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 ar gyfer blwyddyn 2021 y cynllun.

Bydd gofyn i ffermwyr barhau i fodloni'r diffiniad o ffermwr, sy'n golygu cynhyrchu, magu neu dyfu cynnyrch amaethyddol; cadw tir amaethyddol mewn cyflwr sy'n ei wneud yn addas ar gyfer ei bori neu ei drin neu gynnal lefel sylfaenol o weithgarwch amaethyddol ar dir amaethyddol sy'n cael ei gadw'n naturiol mewn cyflwr addas ar gyfer ei bori neu ei drin.

2.11 Cywarch

C17. A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i dynnu tir a ddefnyddir i gynhyrchu cywarch oddi ar y rhestr o godau cnydau cymwys a pheidio â bod yn gymwys ar gyfer BPS bellach?

Roedd yr ymatebion i'r cynnig wedi'u rhannu'n gyfartal.

Roedd ymatebion yn awgrymu y gallai cywarch fod yn gnwd amgen hyfyw y gellid ei dyfu ledled Cymru at nifer o ddibenion gan gynnwys gwneud dillad, cynnyrch a moddion ac argymhellwyd y dylai'r cnwd gael parhau i fod yn gymwys. Dywedodd eraill bod gan y cnwd rinweddau amgylcheddol da gyda gwreiddiau dwfn sy'n dda i adeiladwaith y pridd a gallai helpu i arallgyfeirio cnydau yn y dyfodol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r ymatebion i'r cynnig yn awgrymu bod digon o botensial ar gyfer tyfu cywarch ledled Cymru a bod yn rhan o'r adferiad gwyrdd ehangach. Ar sail hynny, mae Gweinidogion Cymru'n gwyro o blaid credu y dylid cael parhau i ddefnyddio hawliau BPS arno, cyn belled â bod rheolau a chanllawiau'r Swyddfa Gartref ynghylch cynnwys THC a hadau'n cael eu bodloni.

3 Cynigion Datblygu Gwledig

3.1 Egwyddorion, cenhadaeth, amcanion a blaenoriaethau

C18. A ydych chi'n cytuno y dylid disodli cenhadaeth, amcanion a blaenoriaethau'r UE ar gyfer cymorth datblygu gwledig â diffiniad penodol i Gymru ar gyfer datblygu gwledig?

Roed mwyafrif llethol yr ymatebwyr o blaid y cynnig hwn. Mynegwyd pryderon ynghylch cyfnewid cenhadaeth, amcanion a blaenoriaethau'r UE am ddiffiniad cul o ddatblygu gwledig. Roedd cefnogaeth gref o blaid symleiddio'r ddeddfwriaeth.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Gweinidogion Cymru'n gwyro o blaid cadw'r genhadaeth, amcanion a blaenoriaethau presennol. Caiff deddfwriaeth benodol Cymru sef Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016 eu hymgorffori er mwyn cadw cwrpas presennol strwythur cymorth Datblygu Gwledig, sy'n ategu uchelgeisiau Cymru.

Mae Gweinidogion Cymru'n gwyro o blaid peidio â chynnwys ardaloedd ffocws yr UE yn y ddeddfwriaeth gyda golwg ar ddatblygu ardaloedd ffocws anstatudol trwy ddogfennau'r rhaglen.

3.2 Mesurau

C19: A ydych yn cytuno â'r diwygiadau arfaethedig i'r Mesurau?

C20: A oes unrhyw ddiwygiadau neu ddewisiadau eraill yr hoffech eu hawgrymu ar gyfer unrhyw Fesur?

Roedd yn amlwg bod mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn. Roedd rhai am weld rhagor o newidiadau i'r Mesurau o'u cymharu â'r rheini yn yr ymgynghoriad, gan gynnwys manteisio ar y cyfle i estyn i bob agwedd ar goedwigaeth a rheoli coetiroedd. Tynnodd ymatebwyr eraill sylw at bwysigrwydd sicrhau bod fframwaith ariannol y gallai'r Mesurau weithredu o'i fewn a phwysigrwydd sicrhau cae chwarae gwastad â gweddill y DU.

Cafwyd awgrymiadau eraill gan nifer fawr o'r ymatebwyr (54) ar gyfer diwygio Mesurau penodol, naill ai i ddiwygio'r Mesurau'n gyffredinol neu i greu rhai newydd.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Gweinidogion Cymru'n gwyro o blaid cadw'r Mesurau cyfredol gan y bydd hyn yn rhoi'r hyblygrwydd mwyaf i Weiniogion Cymru gefnogi'r economi wledig yn ystod y cyfnod o newid i gynlluniau cymorth newydd ar ôl i'r Cyfnod Gweithredu ddod i ben ac inni ymadfer o effeithiau pandemig y COVID-19.

Bydd yr awgrymiadau i newid mesurau'n cael eu hystyried wrth ddatblygu cynlluniau cymorth amaethyddol newydd, gan gynnwys mân newidiadau i ddyluniad cynllun pan na fydd cynlluniau penodol yn cael eu darparu mwyach trwy raglen yr UE. Bydd

newidiadau mawr i Fesurau neu creu Meusrâu newydd yn destun ymgynghoriad yn ddiweddarach.

3.3 Trefniadau Llywodraethu a Gweinyddu

C21. A ydych yn cytuno â'r syniad o ddileu gofynion manwl ar gyfer cynnwys a diwygio rhaglen datblygu gwledig yn y dyfodol?

C22. A ydych yn cytuno â chryfhau swyddogaeth yr Awdurdod Rheoli?

Cafwyd ymateb cymysg i'r cynigion hyn er i'r mwyafrif eu cefnogi.

Mynegwyd pryderon ynghylch y potensial i atebolrwydd a thryloywder ddioddef, gan bwysleisio mor bwysig yw bod Llywodraeth Cymru'n rhannu data ac yn adrodd ar berfformiad ar sail targedau a chynlluniau. Pwysleisiodd yr ymatebwyr hefyd mor bwysig yw bod rhanddeiliaid yn cyfranogi gan gynnwys dynwared trefniadau'r UE os nad y fiwrocratiaeth gaeth.

O ran rôl yr Awdurdod Rheoli, roedd rhai ymatebwyr yn aneglur ynghylch yr hyn oedd yn cael ei gynnig. Roedd rhai'n argymhell meincnodi ar lefel y DU, roedd eraill o blaid cadw'r system bresennol, gan gynnwys Pwyllgor Rheoli'r Rhaglen, gan fod rhwystrau a gwrthbwysau'n rhan ohoni.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Bwrdd Cynghori ar Ddatblygu Gwledig i ystyried cynnwys rhaglen datblygu gwledig ddomestig ar sail anstatudol. a'r modd y'i cynhelir.

Caiff dogfennau ar gyfer y rhaglen newydd eu datblygu trwy gydweithio a chaiff barn y bwrdd ei hystyried fel rhan o'r broses benderfynu.

Bydd yr Awdurdod Rheoli yn cadw ei rôl o ran goruchwylio a chefnogi bwrdd monitro datblygu gwledig, rhoi cyngor i Weinidogion Cymru a goruchwylio'r rhaglen.

3.4 Rhwydweithio Ewropeaidd

C23. A ydych chi'n cytuno y dylid dileu'r gofynion yn ymwneud â rhwydweithio?

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn.

Roedd lleiafrif sylweddol, 22 o ymatebwyr, yn anghytuno gan dynnu sylw at bwysigrwydd rhwydweithio a rhannu syniadau ac arferion gorau arloesi ac ymchwil a datblygu. Roedd rhai ymatebwyr yn poeni os na fyddai gofyn statudol i rwydweithio, y câi llai o flaenoriaeth ei roi iddo oherwydd diffyg arian.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn y dylid diddymu'r gofynion rheoleiddio sy'n ymwneud â rhwydweithio. Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno y bydd rhwydweithio a

rhannu arferion a syniadau da am ddatblygu gwledig yn parhau'n bwysig yn y dyfodol ac mae wedi ymrwmo i roi cyfleoedd i wneud hyn ar sail anstatudol.

Mae rhwydweithio'n rhan hanfodol o'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill Cymru yn gweithio, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod hefyd bwysigrwydd cynnal ymagwedd allblyg ar ôl ymadael â'r UE a darparu a chymryd rhan mewn cyfleoedd rhwydweithio â gwledydd a rhanbarthau eraill yn ogystal ag o fewn Cymru.

3.5 Monitro a gwerthuso ac adrodd

C24. A ydych chi'n cytuno y dylid cyfuno a gwella'r broses o fonitro a gwerthuso cymorth ar gyfer datblygu gwledig, gan ddefnyddio amcanion a dangosyddion i Gymru'n benodol?

C25. A ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno adroddiad blynyddol ar roi ei rhaglen datblygu gwledig ar waith?

Roedd yn amlwg bod mwyafrif arwyddocaol yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion hyn.

Nid oedd rhai ymatebwyr am newid trefn monitro, gwerthuso ac adrodd y cymorth datblygu gwledig, heblaw'r newidiadau y bydd eu hangen pan ddaw'r Cyfnod Gweithredu i ben. Roedd eraill am weld y monitro, y gwerthuso a'r adrodd yn cael eu gwneud yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru ac am weld rôl Pwyllgor Rheoli'r Rhaglen yn cael ei chryfhau.

Mynegodd rhai eu pryder am yr amcanion a'r dangosyddion penodol Cymreig gan bwysleisio pwysigrwydd sicrhau eu bod yn cynnwys agweddau economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol i gadw cydbwysedd rhwng ffermio, coedwigaeth a buddiannau economaidd eraill cefn gwlad.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion hyn. Ar sail hynny, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod prosesau cadarn yn bod ar gyfer monitro a gwerthuso'r rhaglen. Yn y tymor byr, byddant yn dilyn y trefniadau presennol.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn y dylai amcanion a dangosyddion penodol Cymreig gael eu cynhyrchu yn y tymor hir mewn cydweithrediad â'r Bwrdd Cyngori ar Ddatblygu Gwledig, ac y dylid ymgynghori arnynt.

Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i baratoi adroddiad blynyddol ar y cymorth datblygu gwledig, ar sail anstatudol fel y cytunwyd trwy'r Bwrdd Cyngori ar Ddatblygu Gwledig.

4. Y Gymraeg

Gwelsom gonsensws cyffredinol yn yr ymatebion a ddaeth i law y câi'r cynigion hyn effaith niwtral ar y Gymraeg.

Mynegwyd rhai pryderon bod y cynnig i ddisodli cenhadaeth, amcanion a blaenoriaethau'r Rhaglen Datblygu gwledig â diffiniad sy'n benodol i Gymru (cwestiwn 18) yn rhy gul ac y byddai cadw'r egwyddorion a'r amcanion presennol ar gyfer swyddi a chymunedau yn rhoi cefnogaeth well i'r Gymraeg na'r diffiniad a gynigir.

Roedd y sylwadau a gafwyd yn adlewyrchu cefnogaeth fras i ddarparu'r cynllun yn ddwyieithog ac na ddylai'r cynigion olygu anfantais i siaradwyr y Gymraeg nac i siaradwyr y Saesneg.

Cafwyd sylwadau penodol yn dweud y gallai dogfennau dwyieithog i dwristiaid ddrysu'r di-Gymraeg. Cafwyd sylw arall oedd yn awgrymu y dylai gwella mesurau datblygu gwledig gryfhau cymunedau gwledig a thrwy hynny, gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

Y cynigion sy'n cael eu disgrifio yn yr ymgynghoriad hwn yw'r man cychwyn ar gyfer newid i drefniadau cymorth amaethyddol newydd. Bydd y cynigion a fabwysiedir yn helpu ffermwyr, rheolwyr tir a'r economi wledig ehangach i aros ar eu tir, a bydd arian ar gael gan Lywodraeth Cymru i helpu'r gymuned wledig ehangach i fod yn gydnerth a chynnal y Gymraeg yn yr ardaloedd hyn.

Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i ddarparu'r BPS a'r RhDG yn y ddwy iaith.

Atodiad 1: Rhestr o'r Ymatebwyr

Parciau Cenedlaethol Cymru

Rhwydwaith Calon Cymru

Archeoleg Dyfed

Coed Cadw

Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys

MWMAC

Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol Cymru

Gwasanaeth Datblygu Cymunedol – CBS Conwy

Undeb Amaethwyr Cymru

Social Farms & Gardens

Cymdeithas y Gyfraith Amaethyddol

Grŵp Arwain – CS Powys

Cymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol

Cymdeithas Coed Lleol

Cyddfederasiwn y Diwydiannau Fforestydd

Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad

Yr Ymgyrch dros Ddiogelu Cymru Wledig

Grŵp Gweithredu Lleol Cynnal y Cardi

Game & Wildlife Conservation Trust Cymru

Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent

Tyfu Canolbarth Cymru

CS Gwynedd

Hybu Cig Cymru

CS Ynys Môn

Cynghrair y Gweithwr Tir

Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru

Cyfoeth Naturiol Cymru

Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (Cymru)

NSA Cymru

Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brehinol yng Nghymru

RSPB Cymru
RSPCA Cymru
Cymdeithas y Ffermwyr Tenant
Cymdeithas y Feganiaid
Cyswllt Amgylcheddol Cymru
Plaid Werdd Cymru
Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru
Comisiynydd y Gymraeg
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Ymddiriedolaethau Natur Cymru
Fferm Glyn-coch
Ystâd Parc Pont-y-Pŵl
Dŵr Cymru
CFfl Bryncrug
Cymdeithas Cywarch Diwydiannol Ewrop
CFfl Morgannwg
Gwernol Agri Services Ltd
CFfl Maldwyn
CFfl Maesyfed
W.S.Jones & Son

Atodiad 2: Crynodeb o'r ymatebion

Rhan o'r ymgynghoriad	Cwestiwn	Cytuno yn glir gyda'r cynnig	Anghytuno yn glir gyda'r cynnig	Dim yn glir	Heb ateb	Cyfanswm
Cyfraddau talu a dyraniad blynyddol BPS	C1. A ydych yn cytuno â'r cynnig i Weinidogion Cymru bennu terfyn uchaf y BPS, mewn perthynas â Chymru?	72	7	5	15	99
	C2. A ydych yn cytuno â'r cynnig i gyflwyno mesurau ychwanegol a fyddai'n rhoi mwy o hyblygrwydd i Lywodraeth Cymru reoli unrhyw gyllideb BPS nas gwariwyd?	65	10	10	14	99
Rheol cais sengl trawssffiniol (ledled y DU)	C3. A ydych yn cytuno â'r cynnig i ddileu ceisiadau trawssffiniol ac ystyried tir Cymru yn unig ar gyfer hawliadau BPS yng Nghymru, gan ddileu'r angen i aros am wiriadau gan asiantaethau talu eraill?	63	10	10	16	99
	C4. A ydych yn cytuno â'r cynnig i dylai maint lleiaf yr hawliad aros yn ddigyfnewid a pheidio â gwneud unrhyw ddarpariaeth i ffermwyr sy'n dibynnu ar dir mewn rhannau eraill o'r DU ar hyn o bryd i gydymffurfio ag arwynebedd maint lleiaf yr hawliad, sef 5 hectar cymwys?	51	19	13	16	99
Taliad Gwyrdd	C5. A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gadw arferion y taliad gwyrdd drwy drawsgydymffurfio?	66	9	12	12	99
	C6. A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddileu'r rheol Tyfu Amrywiaeth o Gnydau o ofnyion y Taliad Gwyrdd?	56	16	10	17	99
Cynllun Ffermwr Ifanc	C7. A ydych yn credu y dylem gau'r Cynllun Ffermwr Ifanc i geisiadau newydd o 2021?	30	44	10	15	99
	C8. Ac eithrio'r opsiwn i gau'r Cynllun Ffermwr Ifanc i geisiadau newydd o 2021, a oes opsiynau eraill y gellid eu hystyried?	47	11	23	18	99
Rheolau'n ymwneud â dogfennau ategol hwyr ar gyfer BPS	C9. A ydych yn cytuno â'r cynnig i ymestyn dyddiad cyflwyno dogfen ategol y BPS i 31 Rhagfyr?	60	12	12	15	99
	C10. A ydych yn cytuno â'r cynnig i beidio â newid y dyddiad terfynol ar gyfer ceisiadau a'r gosb am gais hwyr?	62	7	14	16	99
Y Gronfa Genedlaethol	C11. A ydych chi'n cytuno y dylid ehangu categorïau'r Gronfa genedlaethol i gynnwys tir ychwanegol a gaffaelwyd?	52	14	15	18	99
	C12. A oes unrhyw gategoriâu neu gynigion eraill y dylid eu hystyried ar gyfer y Gronfa Genedlaethol yn eich barn chi?	38	9	26	26	99
Cyfraddau Arolygu	C13. A ydych yn cytuno â'r bwriad hwn i leihau cyfraddau arolygu'r BPS?	58	22	4	15	99
Datgan gormod o dir	C14. A ydych yn cytuno â'r cynnig i ddileu cyfyngiad y "Cerdyn Melyn"?	49	6	23	21	99
Cyfnod Talu BPS ar gyfer hawliadau nad ydynt wedi'u dilysu	C15. A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gyflwyno model rhagdaliad a thaliad olaf a dileu'r gofyniad am ddilysu hawliadau'n llawn cyn gwneud rhagdaliad cynnar?	54	13	15	17	99
Gofyniad Ffermwr Actif	C16. A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddileu'r gofyniad rhestr negyddol ar gyfer Ffermwr Actif a chadw'r lefelau sylfaenol o "Weithganwch Amaethyddol"?	50	20	14	15	99
Cywarch	C17. A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i dynnu tir a ddefnyddir i gynhyrchu cywarch oddi ar y rhestr o godau crydau cymwys a pheidio â bod yn gymwys ar gyfer BPS bellach?	24	35	23	17	99
Cenhadaeth, amcanion a blaenoriaethau	C18. A ydych chi'n cytuno y dylid disodli cenhadaeth, amcanion a blaenoriaethau'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer cymorth datblygu gwledig â diffiniadau penodol i Gymru ar gyfer datblygu gwledig?	62	14	14	9	99
Mesurau	C19: A ydych yn cytuno â'r diwygiadau arfaethedig i'r Mesurau?	62	8	15	14	99
	C20: A oes unrhyw ddiwygiadau neu ddewisiadau eraill yr hoffech eu hawgrymu ar gyfer unrhyw Fesur?	17	7	50	25	99
Trefniadau gweinyddol	C21. A ydych yn cytuno â'r syniad o ddileu rheoliadau manwl sy'n nodi'r gofynion ar gyfer cynnwys a diwygio rhaglen datblygu gwledig yn y dyfodol?	44	19	14	22	99
	C22. A ydych yn cytuno â chryfhau swyddogaeth yr Awdurdod Rheoli?	44	19	17	19	99
Rhwydweithio Ewropeaidd	C23. A ydych chi'n cytuno y dylid dileu gofynion rheoleiddiol yn ymwneud â rhwydweithio?	40	22	19	18	99
Monitro a gwerthuso ac adrodd	C24. A ydych chi'n cytuno y dylid cyfuno a gwella'r broses o fonitro a gwerthuso cymorth ar gyfer datblygu gwledig, gan ddefnyddio amcanion a dangosyddion i Gymru'n benodol?	65	5	10	19	99
	C25. A ydych chi'n cytuno y dylai Lywodraeth Cymru gyflwyno adroddiad blynyddol ar roi ei rhaglen datblygu gwledig ar waith?	76	0	8	15	99